



Casglu Ystadegau Presenoldeb a Nodweddion Personol oddi wrth Ysgolion o Fis Medi 2020 Ymlaen

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ystod eang o ddata amdanoch yn flynyddol, ac eglurir hyn yn fanylach yn yr [hysbysiad preifatrwydd hwn](#).

Oherwydd y pandemig Covid-19 ac ysgolion yn gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio, mae angen i Lywodraeth Cymru casglu data presenoldeb yn amlach nag unwaith y flwyddyn. Bydd casglu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein cefnogi ac yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i ddeall effaith pandemig Covid-19 ar bresenoldeb a sut y gallwn gefnogi ysgolion.

Pa mor aml fydd Llywodraeth Cymru yn casglu'r data hwn?

Fydd Llywodraeth Cymru yn cadw amlder y casglu dan adolygiad rheolaidd. I ddechrau, bydd y data'n cael ei gasglu bob wythnos ond efallai y bydd angen i ni gasglu'r data yn fwy aml.

Ar gyfer pa ddisgyblion mae Llywodraeth Cymru yn casglu data?

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data am bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir o fis Medi 2020 ymlaen.

Pa wybodaeth mae Llywodraeth Cymru'n ei chasglu?

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu'r wybodaeth ganlynol amdanoch bob wythnos:

- Rhif unigryw'r disgybl (UPN)
- Enw cyntaf
- Enw(au) canol
- Cyfenw
- Rhywedd
- Dyddiad geni
- Cod post cartref
- Cefndir ethnig
- Cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- Cod presenoldeb ar gyfer pob sesiwn hanner diwrnod yr wythnos honno

Pam mae Llywodraeth Cymru yn casglu'r wybodaeth yma?

Mae Llywodraeth Cymru angen yr wybodaeth hon fel rhan allweddol o'n hymateb a chynllunio yn ystod y pandemig Covid-19 parhaol. Bydd y data'n cael ei gasglu'n rheolaidd i sicrhau bod y data diweddaraf ar gael i lywio ein hymateb. Byddwn yn defnyddio'r data at ddibenion ystadegol a gwaith ymchwil yn unig ac ni fydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud yn eich cylch yn defnyddio'r data hyn.

Sut fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth yma?

Fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data yn yr un ffyrdd ag yr ydym wedi'u rhestru yn ein [prif hysbysiad preifatrwydd](#)

A fydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r data?

Gall Llywodraeth Cymru rhannu'r data gyda'r sefydliadau yr ydym wedi'u rhestru yn ein [prif hysbysiad preifatrwydd](#)

Pa mor hir fydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r wybodaeth amdanoch?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r data sy'n ei gwneud yn bosibl eich adnabod chi hyd nes y byddwch yn 25 oed.

Beth yw'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'r data hwn?

Mae adran 538 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer casglu'r data hwn. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud unrhyw adroddiadau a ffurflenni, a rhoi unrhyw wybodaeth, i Weinidogion Cymru y bydd eu hangen arnynt ar gyfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag addysg.

Eich hawliau o dan y GDPR

Esbonnir eich hawliau yn llawn yn ein [prif hysbysiad preifatrwydd](#).